

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Tîm Anableddau Dysgu Cymunedol Rhondda Cynon Taf (De), Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Dyddiad yr arolygiad: 13 - 15 Chwefror 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion ynglŷn â sicrwydd yr oedd angen mynd i'r afael â nhw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): Dermot Nolan

Teitl swydd: Cyfarwyddwr y Grŵp Gwasanaeth

Dyddiad:

27 Mawrth 2024

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Tîm Anableddau Dysgu Cymunedol Rhondda Cynon Taf (De), Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Dyddiad yr arolygiad: 13 - 15 Chwefror 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd Profiad y Claf				
Diffyg ystafelloedd clinig priodol, diogel sydd wedi cael eu hasesu o ran risgiau ar gyfer cynnal ymgynoriadau ac asesiadau	Dylai'r bwrdd iechyd adolygu a chynyddu'r ddarpariaeth o ystafelloedd / ardaloedd clinig priodol er mwyn sicrhau y gellir cynnal ymgynoriadau ac asesiadau yn ddiogel ac yn effeithiol	Mae darpariaeth ar gyfer ardal glinigol yn yr adeilad sydd wedi cael ei datblygu'n ddiweddar a gall gweithwyr proffesiynol ei defnyddio. Dylai'r rhan fwyaf o'r gwaith clinigol gael ei gyflawni yn y gymuned a dyna sy'n digwydd. Bydd adolygiad o'r asesiad risg amgylcheddol yn cael ei gynnal ac ar lefel tîm, mae angen adolygu asesiadau risg clinigol o ran mynediad cleifion.	Rheolwr y Gyfarwyddiaeth a'r Nyrs Arwain	Mehafin 2024

<p>Dyweddod aelodau o'r staff wrthym am yr heriau o ran amser a chapasiti sy'n gysylltiedig â dyrannu'r rôl Cydgysylltu Gofal</p>	<p>Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r rôl Cydgysylltu Gofal a'r disgwyliadau sy'n cyd-fynd â'r rôl honno, ac ystyried cynnig hyfforddiant i aelodau o'r staff sy'n gweithredu fel cydgysylltwyr gofal (o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl)</p>	<p>Mae'r tasgau sy'n gysylltiedig â'r broses cydgysylltu gofal wedi cael eu hadolygu ac mae'r bwrdd iechyd yn awyddus i dreialu rôl swyddog llywio gofal mewn rhan arall o'r gwasanaeth. Caiff canfyddiadau'r broses dreialu hon ei rhannu o fewn yr is-adran ac os bydd y broses yn llwyddiannus, bydd llwybrau ariannu yn cael eu ceisio er mwyn mynd i'r afael â hyn. Mae disgwyliadau ar gyfer rolau cydgysylltwyr gofal wedi cael eu nodi a'u rhannu fel rhan o bolisi gweithredol y Tîm Anableddau Dysgu Cymunedol. Mae disgrifiad swydd wedi cael ei lunio a'i gyflwyno er mwyn i'r panel gwerthuso swyddi ei adolygu. Mae grŵp goruchwylio cymheiriaid wedi cael ei sefydlu i gynnig cymorth a nodi cyfleoedd dysgu ar gyfer staff sy'n ymgymryd â rolau</p>	<p>Rheolwr Is-adrannol a'r Pennaeth Nyrsio</p>	<p>Gorffennaf 2024</p>
---	--	--	--	------------------------

		cydgysylltu gofal o dan y Cyngor Iechyd Cymuned. Mae disgwyl i ddadansoddiad o anghenion hyfforddiant gael ei gwblhau'n fuan a chaiff rhaglen hyfforddiant ei datblygu yn dilyn hynny.		
Prin yw'r systemau ffurfiol sydd ar waith i rannu gwybodaeth yn effeithiol am y gofal iechyd a ddarperir i bobl	Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r systemau, y prosesau a'r strwythurau sydd ar waith er mwyn sicrhau y gellir rhannu gwybodaeth yn briodol ac yn ddiogel â thimau aml-ddisgyblaethol a sicrhau bod gwelliannau yn cael eu gwneud	Mae cyfarfodydd tîm aml-ddisgyblaethol yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac mae trefniadau cydweithio ar waith. Bydd y gyfarwyddiaeth yn cyfarfod â'r uwch-arweinwyr er mwyn adolygu'r systemau, y prosesau a'r strwythurau sydd ar waith. Rydym wrthi'n datblygu rôl ar gyfer Rheolwr y Tîm Iechyd a fydd yn helpu i gydgyssylltu systemau a phrosesau.	Rheolwr y Gyfarwyddiaeth a'r Nyrs Arwain	Mehefin 2024
Dyweddodd rhai pobl wrthym fod diffyg eglurder o ran rôl a swyddogaeth y Tîm Cymorth Dwys Anableddau Dysgu (LDIST)	Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod partneriaid perthnasol yn deall rôl a swyddogaeth LDIST a'r ffordd y mae'n cysylltu â'u rolau.	Mae gan LDIST bolisi gweithredol a fydd yn cael ei rannu'n eang sy'n cynnwys gwybodaeth am sut i gael mynediad at y gwasanaeth a chaiff enghreifftiau o'r gwaith y mae LDIST yn ei wneud eu	Rheolwr y Gyfarwyddiaeth a'r Nyrs Arwain	Mehefin 2024

		cynnwys mewn adroddiadau ar ansawdd a diogelwch gwaith comisiynu.		
Gofal Diogel ac Effeithiol				
Roedd systemau cofnodion cyfrifiadurol a phapur ar waith a oedd yn arwain at gymhlethdodau wrth gofnodi, trin a tharfod a rhannu gwybodaeth am ofal iechyd pobl o bryd i'w gilydd	Dylai'r bwrdd iechyd fwrw ati gyda chynlluniau i ddatblygu system well ar gyfer rheoli cofnodion	Mae'r mater hwn wedi'i ychwanegu at gofrestr risgiau'r grŵp gwasanaeth a'i uwchgyfeirio o fewn fforymau gwasanaethau digidol. Mae ariannu a datblygu system electronig a rennir yn cael ei ystyried ar lefel y bwrdd iechyd/lefel genedlaethol. Yn lleol, byddwn yn adolygu'r systemau cofnodion clinigol sydd ar gael i'r gwasanaeth ac yn eu gweithredu fel y bo angen er mwyn bodloni'r gofynion ar gyfer rheoli cofnodion (h.y. Cynllun Mynediad Cleifion Cymru (WPAS) a phorth clinigol).	Bwrdd iechyd	Medi 2024
Ni chawsom dystiolaeth bod archwiliad wedi'i gynnal o gofnodion iechyd y bobl	Rhaid i'r bwrdd iechyd sefydlu proses archwilio ac adolygu ar gyfer cofnodion gofal a chymorth er mwyn sicrhau cywirdeb a chysondeb.	Bydd y broses archwilio cofnodion iechyd yn cael ei hatgyfnerthu drwy'r fframwaith sicrhau ansawdd a	Nyrs Arwain	Mai 2024

		chyfarfodydd ansawdd a diogelwch.		
Nid oedd mynegai wedi cael ei gynnwys yng nghofnodion iechyd y bobl i ddangos eu statws o ran y Ddeddf Iechyd Meddwl / Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid	Argymhellwyd y dylid ychwanegu'r mynegai hwn at flaen y cofnodion i'w gwneud yn haws i'r rhai sy'n darparu gofal weld statws cyfreithiol y bobl.	Bydd mynegai yn cael ei ychwanegu at flaen y cofnodion i'w gwneud yn haws i'r rhai sy'n darparu gofal weld statws cyfreithiol y bobl.	Nyrs Arwain	Mehefin 2024
Arweinyddiaeth a Rheolaeth				
Nid yw'r staff iechyd a gofal cymdeithasol wedi'u hintegreiddio na'u cydleoli ac mae hyn yn ei gwneud yn anodd cyfathrebu o bryd i'w gilydd	Rhaid i'r bwrdd iechyd ddatblygu strategaethau ffurfiol i wella prosesau cydweithio â'r awdurdod lleol ar bob lefel yn y gwasanaeth	Nid ydym yn ystyried cydleoli ar hyn o bryd. Rydym wrthi'n datblygu rôl ar gyfer Rheolwr y Tîm Iechyd a fydd yn helpu i gydgyssylltu systemau a phrosesau er mwyn gwella'r trefniadau cyfathrebu. Bydd trafodaethau'n cael eu cynnal yn y fforwm comisiynu ar y cyd ar wella strategaethau cyfathrebu.	Rheolwr y Gyfarwyddiaeth a'r Nyrs Arwain	Gorffennaf 2024
Dywedodd rhai aelodau o'r staff wrthym fod achosion cynyddol gymhleth ac ymddygiad heriol yn cynyddu llwythi gwaith	Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau i fonitro ac asesu adnoddau staffio yn erbyn llwythi gwaith a chymryd camau priodol pan fo angen er mwyn ateb y galw nawr ac yn y dyfodol.	Mae strwythurau goruchwyllo a llesiant ar waith. Anogir y staff i ddefnyddio dulliau myfyrio a datblygu personol ochr yn ochr â goruchwyliaeth glinigol a goruchwyliaeth gan reolwyr.	Nyrs Arwain E. Pritchard	Wedi'i gwblhau

Nid oedd aelodau o'r staff yn cael hyfforddiant rheolaidd ar y Ddeddf Iechyd Meddwl er eu bod yn darparu gofal i bobl o dan y Ddeddf hon yn rheolaidd	Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu ei raglen hyfforddiant er mwyn sicrhau bod y rhai sy'n darparu gofal i bobl o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y Ddeddf a'i goblygiadau i'r bobl sy'n cael eu cefnogi.	Rydym wedi trefnu bod swyddfa Deddf Iechyd Meddwl y Bwrdd Iechyd yn cynnal hyfforddiant ar y Ddeddf Iechyd Meddwl ac mae'r dyddiadau wedi cael eu rhannu â'r tîm	Nyrs Arwain E. Pritchard	Mehefin 2024
Nid oedd digon o le ar gael yn y swyddfa i gynnal cyfarfodydd y tîm aml-ddisgyblaethol	Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu a gwella'r amgylchedd gwaith ffisegol a'r ardal gyfarfod briodol sydd ar gael i gynnal cyfarfodydd y tîm aml-ddisgyblaethol	Bydd adolygiad o'r defnydd a wneir o'r adeilad yn cael ei gynnal a byddwn yn ceisio sicrhau ardal gyfarfod arall ar y safle.	Rheolwr y Gyfarwyddiaeth	Mehefin 2024
Dywedodd y staff wrthym fod cleifion yn wynebu oedi hir yn aml a heriau o ran cael mynediad amserol at gyfarpar meddygol	Rhaid i'r bwrdd iechyd sefydlu prosesau amserol ac effeithiol a'u rhannu er mwyn sicrhau nad yw'r bobl yn ne Rhondda Cynon Taf, a gaiff eu cefnogi gan y Tîm Anableddau Dysgu Cymunedol, yn wynebu oedi hir na biwrocratiaeth wrth gael mynediad at gyfarpar meddygol.	Mae'r ymdrechion i roi proses ar waith er mwyn mynd i'r afael â hyn yn mynd rhagddynt a bydd y fforwm comisiynu ar y cyd yn eu monitro.	Rheolwr Is-adrannol a Chomisiynwyr	Mehefin 2024

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Dermot Nolan

Teitl swydd: Cyfarwyddwr y Grŵp Gwasanaeth

Dyddiad: 27 Mawrth 2024